ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 21ain EBRILL 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol:
Cynghorwyr:
Will G Roberts - Cadeirydd
Erwyn Jones
Mel Goch ap Meirion
Bedwyr Gwilym (cofnodi)
Annwen Daniels
Gareth W Jones

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Rory Francis

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i'r un Cynghorydd ddatgan diddordeb

1. **AROLWG Y CAEAU CHWARAE**

Parc Sglefrio
Yn bresennol ar gyfer yr eitem yr oedd cynrychiolaeth o ddefnyddwyr y Parc Sglefrio.
Adroddwyd bod y ramp bach yn codi oddi-ar y llawr, tolc ar y ramp mawr, gwydr yn cael ei falu ar y llawr a bod y defnyddwyr wir angen y goleuadau er mwyn gwneud defnydd llawn o'r rampiau.
Adroddwyd nad oedd defnyddwyr y Parc Sglefrio wedi gweld yr Angry Scones yn defnyddio'r trac rasio ers peth amser.
Cafwyd trafodaeth ar sut y dylid defnyddio'r arian o'r sesiwn noddi "skateathon", gyda'r pobl ifanc yn dweud y byddent yn dymuno denfyddio'r arian i brynu "4 way fun box" ac i drwsio'r rampau.
Argymell: Penodwyd y Cynghorydd Wil G Roberts i edrych ar y ramp bach ac i baratoi adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor yn adrodd ar y gwaith sydd angen ei wneud er mwyn atgyweirio'r ramp bach, gyda'r adroddiad i fod yn sail i fynd allan am dendr.
Y Clerc i edrych mewn i pris a maint "4 way fun box" er mwyn sicrhau bod digon o ofod yn y Parc Sglefrio.

Parc
Adroddwyd defnydd uchel o'r cae chwarae oherwydd y siglen newydd a bod y bin ysbwriel yn gorlenwi.
Argymell: I symud un o'r biniau o'r compownd a'i osod yn y lle chwarae. Gofyn i Gwyn Thomas am bris i wneud y gwaith.

Cae Baltic
Dim i'w adrodd
Argymell: Derbyn y wybodaeth

Penbryn
Dim i'w adrodd
Argymell: Derbyn y wybodaeth

Cae Manod
Nodwyd nad oedd adroddiad yr Archwiliwr yn manylu ar beth sydd yn beryg. Adroddwyd bod Steve Smith yn mynd i roi sylw i'r offer.
Argymell: Edrych ar yr offer eto wedi i Steve Smith atgyweirio'r offer.

Bryn Coed
Dim i'w adrodd
Argymell: Derbyn y wybodaeth

Cae Gild
Adroddwyd bod matres wedi ei losgi yn y cae.
Argymell: Y Clerc i gysylltu gyda Nefyn Cleaning i glirio'r fatres ac unrhyw lanast sydd yno.

Tanygrisiau
Nodwyd bod nifer o'r offer angen matiau diogelwch newydd.
Argymell: Clerc i gael dyfynbrisiau

Cae Oakeley
Adroddwyd bod y pyst wedi eu gosod.
Argymell: Derbyn y wybodaeth

2. **<u>TENDRAU</u>**

Archwilio'r Caeau Chwarae
Darllenodd y Cadeirydd y manylion o'r tendr
Argymell: Dileu gofyn am Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a dileu gofyn am Bolisi Amgylcheddol. Ychwanegu y byddai hyfforddiant ar gael.
(BG Fel arall y tendr yn barod i fynd)

Cerddwr y Llwybrau
Darllenodd y Cadeirydd y manylion o'r tendr
Argymell: Dileu gofyn am Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus. Angen ychwanegu gwybodaeth am llidiart, arwyddion a gamfa.
(BG Fel arall y tendr yn barod i fynd, Mel ap G efo gwybodaeth i ychwanegu llidiart ayyb)

Biniau Halen
Darllenodd y Cadeirydd y manylion o'r tendr
Argymell: Y manylion yn gywir. Ysgrifennu at Cyngor Cym Maentwrog, Cyng Cym Penrhyn, Cyng Cym Traws er mwyn holi os ydyn yn dymuno cydweithio ar y dendr.

Glanhau Llochesi Bws / Cof Golofnau / Lloches Ieuenctid / Byrddau Gwybodaeth
Darllenodd y Cadeirydd y manylion o'r tendr
Argymell: Y manylion yn gywir. (BG y tendr yn barod i fynd)

Biniau Ysbwriel
Darllenodd y Cadeirydd y manylion o'r tendr
Argymell: bin ychwanegol yn y Parc ar y Sgwar. Gweddill o'r manylion yn gywir
(BG y tendr yn barod i fynd)

Torri Gwair
Darllenodd y Cadeirydd y manylion o'r tendr
Argymell: Ychwanegu manylion y Parc ar y Sgwar i'r rhestr o gaeau sydd angen eu torri. Gweddill o'r manylion yn gywir.
(BG y tendr yn barod i fynd)

3. **DYFYNBRIS GARDD ENCIL**
Derbyniwyd dyfynbris i atgyweirio feinciau yng ngardd Encil.
Argymell: Derbyn y pris i atgyweirio/gosod i'r llawr yn unig. Paentio'r feinciau i'w wneud yn nhendr arall gyda gweddill meinciau'r Cyngor Tref

4. **YSWIRIANT**
Argymell:
Cof Golofn £20,000
Cerflun David Nash, y Clerc i holi Mr Nash
Polyn Fflag, dirprwyo'r penderfyniad i'r Clerc ar ôl canfod y wybodaeth
Pafiliwn, cynyddu i £100,000
Arwydd Twristiaid, tynnu o'r rhestr
Offer Caeau Chwarae, £200,000
Offer Camerâu Cylch cyfyng, y Clerc i holi'r contractwr (Kevin)

5. **ARWYDDION STRYDOEDD**
Derbyniwyd cais am arwydd gan drigolyn lleol am arwydd newydd ar gyfer Trem Barlwyd Terrace
Argymell: Cynghorwyr i edrych ar yr arwydd presennol ac adrodd yn ôl i'r Cyngor

6. **RHEILFFORDD (PONT YR URDD I DRAWSFYNYDD)**
Derbyniwyd llythyr gan yr Aelod Senedd, Lis Saville Roberts yn mynegi ei pharodrwydd i gydweithio
Argymell: I drefnu cyfarfod, gyda'r Clerc i lythyru Network Rail, Loteri, Antur Stiniog, Lis SR

7. **LLOCHESI BWS CYNGOR GWYNEDD**
Adroddwyd bod angen gwaith
Argymell: Aros i dderbyn rhagor o wybodaeth

8. **GLANHAU'R PISTYLL**
Derbyniwyd dyfynbris i lanhau'r pistyll gyda chemegion.
Argymell: Gofyn am eglurder o'r costau (breakdown) a manylion os yw'r pris yn cynnwys scaffolding. Gofyn hefyd am asesiad risg a datganiad yn egluro sut bydd y gwaith yn cael ei wneud (work method statement).
I wneud penderfyniad ar ôl derbyn y wybodaeth

9. **LES YR ANGRY SCONES**
Argymell: Anfon llythyr i atgoffa'r Angry Scones nad oes copi o'u Yswiriant wedi ei dderbyn, gan ddweud y bydd y les yn cael ei derfynu heb ei adnewyddu os na dderbynnir copi – gyda'r trac yn cael ei mewn gorffori i'r parc sglefrio

10. <u>PLANNU AR GYFER YR HAF</u>

Argymell: I wneud yr un peth a llynedd. I brynu o Gerddi Stiniog, gyda Farrington i blannu.

Cyfarfod yn gorffen 9:04pm